**Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar Chwefror 18fed 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy**

Yn bresennol

Simon Fysh
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones
Y Cyng. Merfyn Thomas

Colin Everett, Clerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

Ymddiheuriadau

Samindre Soysa
Y Cyng. Glyn Williams

1 PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

1.1 Roedd Sam Soysa wedi cyflwyno llythyr yn enwebu Simon Fysh yn Gadeirydd, ac yntau'n Is-Gadeirydd.

1.2 Cytunwyd i benodi Simon Fysh yn Gadeirydd a Sam Soysa yn Is-Gadeirydd. Gofynnodd Simon Fysh am eglurhad ynglŷn ag adeg addas i gamu i lawr fel Cadeirydd pan fyddai ei gyfnod yn y swydd yn tynnu at y terfyn. Dywedodd y Clerc bod ailbenodi aelodau a swyddi yn digwydd ar adeg y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin bob blwyddyn. Felly, dywedodd Mr Fysh y byddai'n sefyll i lawr ym Mehefin 2011.

2 CROESO

2.1 Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod, a rhoi croeso arbennig i Celia Blomeley a Jane A Eyton-Jones a oedd wedi cael eu penodi'n aelodau annibynnol.

3 EITEM FRYS – LLYTHYR AC ADRODDIAD A GYFLWYNWYD GAN SIMON FYSH, SAM SOYSA A JOHN POLLARD (yn ddiarwybod i'r Clerc a heb gyngor ganddo)

3.1 Roedd Simon Fysh wedi rhoi gwybod i'r Clerc ar e-bost y diwrnod cynt fod ganddo nifer o faterion i'w codi yn y cyfarfod. Nid oedd y Clerc wedi gweld yr e-bost hwn cyn y cyfarfod. Roedd Sam Soysa a John Pollard, a oedd wedi sefyll i lawr ym Medi 2009, wedi mynd at Mr Fysh gyda'u pryderon. Roedd y llythyr a'r adroddiad wedi cael eu llofnodi gan Mr Fysh ar ran Sam Soysa a John Pollard. Ymddiheurodd Mr Fysh i'r Clerc am beidio â rhoi copi o'r adroddiad iddo cyn y cyfarfod.

3.2 Roedd y llythyr a'r papur gerbron y cyfarfod yn codi pryderon ynglŷn â chyfathrebu, arferion da a'r berthynas rhwng yr Awdurdod, y Pwyllgor a'r rhai sy'n gyfrifol am eu cefnogi yn y rolau sydd wedi eu neilltuo iddynt. Roedd yr

adroddiad yn cwestiynu'r modd y penodwyd aelodau annibynnol i'r Pwyllgor yn ddiweddar. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhannu pryderon ynglŷn â gwneud penderfyniadau o fewn yr Awdurdod a rôl y Pwyllgor Safonau.

3.3.1 Pryder: roedd y Clerc wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr fod Panel Penodiadau wedi penodi dau aelod annibynnol i wasanaethu am gyfnod o bum mlynedd yn dilyn proses recriwtio. Rôl y Panel Ymgynghorol oedd gwneud argymhellion; nid oedd ganddo unrhyw awdurdod i benodi ac felly dylai cyfnod swyddi aelodau newydd fod dros dro. Roedd yr adroddiad yn herio pam nad oedd y ddau aelod annibynnol oedd mewn swydd wedi cael eu gwahodd i gael eu hailbenodi. Hefyd, roedd pryder y dylai'r penodiadau fod am bedair blynedd ac nid pum mlynedd.

3.3.2 Ymateb cychwynnol y Clerc: roedd y Panel wedi cael awdurdod llawn wedi ei ddirprwyo iddo i wneud penodiadau. Roedd y broses wedi cael ei chynnal yn gwbl briodol. Er bod ganddo awdurdod llwyr wedi ei ddirprwyo iddo, roedd y Clerc yn dal wedi adrodd y penodiadau i'r Awdurdod llawn cyn eu gwneud yn rhai parhaol, ac roedd yr Awdurdod wedi cefnogi'r penodiadau hynny. Cadarnhaodd y ddau aelod newydd fod hyn wedi cael ei esbonio iddynt. Felly, nid oedd y Clerc yn derbyn y dylai'r penodiadau fod yn rhai dros dro. Yn gynharach yn 2009, gwahoddwyd yr Awdurdod llawn i ystyried yr opsiynau o ran ailbenodi a recriwtio aelodau newydd; roedd aelodau'r Awdurdod wedi dewis yr opsiwn olaf, a dilyn eu dymuniadau hwy yr oedd y Clerc wrth oruchwylio'r recriwtio. Cytunodd i wirio hyd cyfnod y swyddi, oherwydd gallai'r pum mlynedd, yn hytrach na phedair blynedd yn y cofnodion fod yn gamgymeriad gweinyddol.

3.4.1 Pryder: Roedd John Pollard wedi anfon e-bost at y Clerc ym mis Mawrth 2009 ynglŷn â materion taliadau, a heb gael ateb.

3.4.2 Ymateb cychwynnol y Clerc: nid oedd gan y Clerc unrhyw gof, ryw un mis ar ddeg yn ddiweddarach, o dderbyn yr e-bost nac ychwaith a oedd wedi rhoi ymateb. Byddai'n edrych ar gofnodion ei e-bost a byddai'n ymddiheuro i Mr John Pollard os oedd unrhyw gamgymeriad o ran ymateb. Rhoddodd y Clerc ei farn fod cyfrifoldeb ar y sawl sy'n anfon e-bost i gysylltu er mwyn mynd ar ôl ateb os nad oes un wedi dod. Roedd yn synnu bod ymholiad yn cael ei wneud un mis ar ddeg yn ddiweddarach ynglŷn â'r mater os oedd o bwys i Mr Pollard.

3.5.1 Pryder: penderfynodd yr Awdurdod beidio â thalu lwfans i aelodau annibynnol. Beth oedd cyngor y Clerc i'r Awdurdod?

3.5.2 Ymateb cychwynnol y Clerc: Roedd y Clerc wedi llunio adroddiad llawn i'r Awdurdod ac wedi cefnogi cais i dalu aelodau annibynnol wedi iddo gyfarfod â Chlercod y ddau awdurdod tân ac achub eraill er mwyn gwneud argymhelliad cyson i'r tri awdurdod. Roedd yr Awdurdod llawn wedi dewis peidio â thalu. Cadarnhaodd y Cyng. Merfyn Thomas fod ateb y Clerc yn gywir, a'i fod yntau wedi cefnogi'r argymhelliad i dalu aelodau annibynnol.

3.6.1 Pryder: natur anaml cyfarfodydd y Pwyllgor.

3.6.2 Ymateb cychwynnol y Clerc: roedd yr angen am gyfarfodydd amlach wedi cael ei drafod yng nghyfarfod blynyddol diwethaf y Pwyllgor. Cyfrifoldeb yr aelodau a'r swyddogion oedd galw cyfarfodydd gyda busnes o werth, ac

roedd y Clerc ar fin gwneud argymhellion cadarnhaol i ehangu rôl y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn. Hyd y cofiai ef, ni chafwyd, ers y cyfarfod diwethaf, unrhyw geisiadau am ragor o gyfarfodydd gan yr aelodau, nac awgrymiadau penodol ar gyfer rôl helaethach a fyddai'n golygu cael rhagor o gyfarfodydd.

3.7 Mynegodd y Clerc ei siom nad oedd wedi derbyn rhybudd o flaen llaw am y llythyr a'r adroddiad ac ynglŷn â chynnwys y dogfennau a'r modd y cawsant eu darllen allan gan y Cadeirydd. Cytunodd i ymateb i'r pryderon yn llawn o fewn rhyw bythefnos, gyda'r ymateb yn cael ei gopïo i bob un o'r aelodau cyfredol a'r cyn-aelodau, yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân.

3.8 Yna, aeth y Pwyllgor yn ei flaen i drafod sut i ehangu rôl y Pwyllgor Safonau.

4 RÔL Y PWYLLGOR SAFONAU YN Y DYFODOL

4.1 Bu'r Clerc a'r aelodau'n trafod rôl yr aelodau annibynnol a dyletswyddau'r Pwyllgor Safonau. Rhoddwyd llawlyfr yr aelodau i'r aelodau newydd, ac roedd hwnnw'n cynnwys gwybodaeth am yr Awdurdod Tân ac Achub a'i weithdrefnau.

4.2 Bu'r aelodau'n trafod y cylch gorchwyl (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) a rôl y pwyllgor yn sicrhau bod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r cod ymddygiad a'i fod yn cael ei weithredu. Nodwyd y gallai'r Pwyllgor Safonau ymestyn ei gylch gorchwyl petai'n ystyried bod angen hynny ac y byddai hynny o werth i'r Awdurdod.

4.3 Cytunwyd y dylai aelodau'r Awdurdod dderbyn hyfforddiant atgoffa bob blwyddyn ar y cod ymddygiad (dosbarthwyd hwn hefyd yn y cyfarfod) Roedd pob aelod wedi cael hyfforddiant ar y cod ymddygiad wrth ymuno â'r Awdurdod, a gofynnodd yr aelodau a oedd modd canfod pa lefel o hyfforddiant yr oedd Aelodau'r Awdurdod wedi ei dderbyn gan eu hawdurdodau cyfansoddol.

4.4 Bu'r Clerc a'r aelodau yn trafod sut y gallai'r pwyllgor fod yn rhagweithiol yn ogystal ag adweithiol.

4.5 Awgrymodd y Clerc y gallai'r pwyllgor adolygu polisi cwynion yr Awdurdod. Rhoddodd y Clerc wybod i'r aelodau bod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wrthi'n llunio polisi cwynion enghreifftiol i'w ddefnyddio gan wasanaethau cyhoeddus trwy Gymru, ac efallai y byddai'r pwyllgor yn dymuno trafod y drafft cyntaf a rhoi adborth i'r Ombwdsmon.

4.6 Hyd yn hyn, nid oedd unrhyw gwynion wedi cyrraedd proses cam 3, sef pryd y mae rhaid i'r Awdurdod ddod yn rhan. Fodd bynnag, yr oedd dau bellach wedi eu derbyn, ac roedd wedi dod i'r amlwg fod angen diweddaru cam 3 o'r polisi cwynion.

4.7 Er bod yr Aelodau'n cytuno y dylid llongyfarch yr Awdurdod am beidio â derbyn unrhyw gwynion ynglŷn ag aelodau a phosibilrwydd o dorri'r cod

ymddygiad, roeddent yn ystyried na ellid rhagdybio bod hyn o ganlyniad i ymwybyddiaeth ymhlith pobl y gallent gwyno.

4.8 Gallai'r pwyllgor fod yn rhagweithiol o ran llywodraethu corfforaethol, a gellid ymestyn cylch gwaith y pwyllgor.

4.9 Eto, gyda rôl ragweithiol, gallai'r pwyllgor drafod gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn fanylach, ac ystyried p'un ai y dymunai'r aelodau gyfarfod â'r Prif Swyddog Tân i drafod y weithdrefn gyffredinol a ph'un ai y bu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban. Mae'n bwysig fod gan y Gwasanaeth weithdrefnau cefnogol yn eu lle ar gyfer achosion o'r fath.

4.10 O ran yr ochr adweithiol o waith y pwyllgor, nodwyd y byddai unrhyw faterion yn ymwneud ag ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelodau gael hyfforddiant mwy dwys a phenodol cyn unrhyw wrandawiad.

4.11 Cytunodd y Clerc y dylai'r pwyllgor gyfarfod fwy nag unwaith y flwyddyn, ac roedd eisoes wedi datgan hyn yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr. Cytunwyd y byddai tri, o leiaf, o gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

4.12 Yn y cyfarfod, darparwyd y Polisi Rheoli Cwynion a'r Weithdrefn Ymdrin â Chwynion Enghreifftiol ar gyfer yr aelodau.

4.13 Cytunwyd y byddai cyfarfod arall yn cael ei alw o fewn deufis, unwaith yr oedd yr aelodau wedi cael cyfle i astudio'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod. Alwen i drefnu cyfarfod.

4.14 Nodwyd bod cyfarfodydd yr Awdurdod yn rhai cyhoeddus, ac felly roedd croeso i'r aelodau annibynnol fynychu pob cyfarfod. Alwen i ddarparu dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd.

5 DATGANIADAU O FUDDIANT

5.1 Dim.

6 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR CHWEFROR 2IL 2009

6.1 Cymeradwywyd y cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 2il yn gofnod cywir.

7 MATERION YN CODI

7.1.1 2.2 – Roedd Panel Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol yn Rhagfyr 2009, ond roedd atodiad atodol ar wahân yn nodi bwriad mwy hirdymor y Panel ar gyfer y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau. Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc nad oedd yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi eu clymu gan argymhellion y Panel.

7.1.2 Fel y trafodwyd eisoes, roedd yr Awdurdod wedi penderfynu peidio â rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau annibynnol, ond petai'r aelodau'n

teimlo y dylid cydnabod gwaith y Pwyllgor Safonau yn ariannol, yna gellid cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod. Teimlai'r Cadeirydd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r mater, a phetai unrhyw ystyriaeth ariannol i'w chael, yna byddai'n annog pobl o bob rhan o'r gymuned i wneud cais am rôl fel aelod annibynnol.

7.1.3 O ystyried mater treuliau'r Aelodau Seneddol, gofynnodd y Cadeirydd p'un ai yr oedd gan y Pwyllgor unrhyw rôl mewn perthynas â monitro treuliau Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub. Dywedodd y Clerc y gallai'r pwyllgor ofyn am wybodaeth petai'r aelodau'n dymuno cael sicrwydd ynglŷn â'r prosesau hawlio costau teithio a chynhaliaeth.

7.2 2.6 – roedd yr Awdurdod bellach wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio, a'r cyfarfod nesaf wedi ei drefnu ar Fawrth 1af.

7.3 2.7 - roedd yr Awdurdod wedi derbyn Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu'r Aelodau.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

8.1 Roedd adroddiad blynyddol drafft wedi cael ei gyflwyno, a byddai'n cael ei helaethu er mwyn adlewyrchu'r drafodaeth yn y cyfarfod.

8.2 Gofynnodd y Cadeirydd i baragraff gael ei gynnwys yn nodi mai bychan iawn yw costau'r Pwyllgor, ac yn dangos yr amser a dreulir gan yr aelodau a'r swyddogion yn paratoi ar gyfer y cyfarfod ac yn ei fynychu.